

Cyfarfod o'r Is-grŵp Cyllid – 4 Chwefror 2021
Cofnodion y cyfarfod

Cyfarfod o Is-grŵp Cyllid Cyngor Partneriaeth Cymru
Dydd Iau 4 Chwefror 2021
9.30-10.30
MS Teams
Cofnodion

Gweinidogion Llywodraeth Cymru

Julie James AS, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol – Cadeirydd tan 10.00
Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd - Cadeirydd o 10.00
Hannah Blythyn AS, y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Y Cyng. Andrew Morgan (Rhondda Cynon Taf)
Y Cyng. Anthony Hunt (Torfaen)
Y Cyng. Carol Clement-Williams (Castell-nedd Port Talbot)
Y Cyng. Peter Fox (Sir Fynwy)
Y Cyng. Paul Miller (Sir Benfro)
Y Cyng. Mark Pritchard (Wrecsam)
Y Cyng. Dyfrig Siencyn, (Gwynedd)
Y Cyng. Rob Stewart (Abertawe)

Comisiynwyr Heddlu a Throseddau

Peter Curran – Prif Swyddog Cyllid, Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru

Swyddogion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Dr Chris Llewelyn – Prif Weithredwr, CLILC
Jon Rae – Cyfarwyddwr Adnoddau, CLILC
Nigel Aurelius – Torfaen (Prif Swyddog Cyllid)

Swyddogion Llywodraeth Cymru

Judith Cole – Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol a Phartneriaethau'r Gweithlu
Debra Carter – Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyllid Strategol Llywodraeth Leol
Matt Wellington – Cyllidebu Strategol
Emma Smith – Pennaeth Polisi Cyllid Llywodraeth Leol
Ashley Caddick – Rheolwr Cyllid a Setliadau'r Dyfodol

YMDDIHEURIADAU

Alun Michael – Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru
Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Cydgysylltu Argyfwng Covid-19, Llywodraeth Cymru

Eitem 1: Croeso a chyflwyniadau

1. Croesawodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) yr aelodau i gyfarfod cyntaf yr Is-grŵp Cyllid yn 2021, gan nodi y byddai'n rhaid iddi adael ar gyfer cyfarfod arall am 10.00 a byddai'r Gweinidog Cyllid a Threfnydd yn cadeirio o'r pwynt hwnnw ymlaen.

Eitem 2 ar yr Agenda: Cofnodion a Materion sy'n Codi o'r Cyfarfod Blaenorol

2. Dywedodd y Cynghorydd Siencyn, er bod y cofnodion yn gywir, mai ei bwynt ym mharagraff 22 oedd mynegi bod disgwyl i'r cyllid o 15% yr oedd disgwyl i'r awdurdodau lleol ei ariannu ar gyfer y cynlluniau rheoli risg arfordirol yn anodd ei fodloni gyda phwysau parhaus ar gyllidebau'r cyngor. Nododd y Gweinidog sylw'r Cynghorydd ac ni chafwyd unrhyw sylwadau pellach ar y cofnodion.

Eitem 3 ar yr Agenda: Diweddariad gan y Gweinidog Cyllid

3. Rhoddodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ddiweddariad. Cyhoeddwyd Cyllideb Ddrafft 2021-22 ar 21 Rhagfyr 2020, a Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol ar 22 Rhagfyr. Dywedodd fod y Llywodraeth wedi darparu'r setliad gorau y gallai - £176m yn ychwanegol o fewn y setliad, gan arwain at gynnydd o 3.8% mewn cyllid ar lefel Cymru ar sail tebyg at ei debyg. Roedd y £176m ychwanegol yn cymryd i ystyriaeth effaith negyddol ragweledig pandemig Covid-19 ar Ardrethi Annomestig yn 2021-22 a rhewi'r lluosydd Ardrethi Annomestig. Dywedodd fod y Llywodraeth yn deall y byddai gan yr awdurdodau lleol benderfyniadau anodd i'w gwneud o hyd a diolchodd i'r aelodau am eu hymgysylltiad adeiladol parhaus.
4. Cadarnhaodd y byddai'r grant adnewyddu ffyrdd gwerth £20m yn parhau yn 2021-22, ac y byddai dros £520m o gyllid yn cael ei ddarparu drwy grantiau cyfalaf, yn ogystal â bron £1bn a ddarperir drwy grantiau refeniw. Tanlinellodd hefyd fod y Grant Gofal Cymdeithasol wedi cynyddu i £50m o £40m yn 2020-21.
5. Cydnabu'r Gweinidog Cyllid a Threfnydd bryder llywodraeth leol am effaith ariannol barhaus pandemig Covid-19 a dywedodd y byddai mwy o gymorth yn cael ei ddyrannu ar gyfer hyn ar gyfer 2021-22 yn y Gyllideb Derfynol. Roedd Llywodraeth y DU yn cyhoeddi ei Chyllideb Derfynol ar 3 Mawrth, y diwrnod ar ôl Cyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22. Byddai unrhyw newidiadau o ganlyniad i Gyllideb y DU yn cael eu gwneud mewn cyllidebau atodol yn ystod y flwyddyn.
6. Diolchodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd i gynrychiolwyr CLILC am eu gwaith ar y dreth gyngor. Roedd hi'n ymwybodol o'r effaith yr oedd y cynnydd mewn ceisiadau Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor wedi'i chael ar yr awdurdodau lleol - roedd £5.4m wedi'i ddarparu ar gyfer dau chwarter cyntaf 2020-21 gyda £5.5m arall i'w ddarparu ar gyfer gweddill 2020-21. Roedd hi hefyd yn ymwybodol o effaith y pandemig ar gyfraddau casglu'r dreth gyngor. Byddai 75% o'r diffyg presennol yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru: byddai hyn yn disodli'r rhan fwyaf o'r golled yn incwm y dreth gyngor y gallai'r awdurdodau ei hwynebu, gyda disgwyliad y byddai rhywfaint o'r diffyg yn debygol o gael ei gasglu. Bu defnydd uwch na'r disgwyl ar y Cynllun

Cyfarfod o'r Is-grŵp Cyllid – 4 Chwefror 2021
Cofnodion y cyfarfod

Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch a byddai £5.1m yn cael ei ddarparu i dalu am hyn.

7. Diolchodd y Cyng. Hunt i'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd a chroesawodd ymagwedd Llywodraeth Cymru yn gyffredinol, a'r gefnogaeth i'r Dreth Gyngor a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a fyddai'n gwneud cyfraniad sylweddol i gynaliadwyedd ariannol yr awdurdodau lleol. Roedd yn ddiolchgar i'r Llywodraeth am gyflwyno setliad ariannol da i'r cyhoedd mewn ffordd gytbwys a chyllid parhaus gan Lywodraeth Cymru tra'n cydnabod y penderfyniadau yr oedd angen i gynghorau eu gwneud o hyd. Er bod blaenoriaethu gwasanaethau rheng flaen megis gofal cymdeithasol ac addysg yn bwysig, dywedodd fod y pandemig wedi tanlinellu'r ddibyniaeth ar swyddogaethau 'cefn swyddfa' fel y'u gelwir megis diogelu'r cyhoedd.
8. Dywedodd y Cynghorydd Morgan mai un maes a oedd yn peri pryder oedd rhyddhad ardrethi annomestig, ac amseriad Cyllideb y DU. Esboniodd fod yr awdurdodau lleol fel arfer yn paratoi ac yn cyhoeddi llythyrau bilio ddechrau mis Mawrth. Gofynnodd a oedd unrhyw esemptiadau'n debygol o gael eu cyhoeddi drwy Gyllideb y DU a'u hadlewyrchu ym mhenderfyniadau Llywodraeth Cymru, fel bod cynghorau'n gallu oedi cyn cyhoeddi biliau os bydd angen. Adleisiodd y Cyng. Fox y pwyntiau hyn. Awgrymodd yr angen am gyfnod o seibiant ar Ardrethi Annomestig ac eglurder ynghylch amseru.
9. Diolchodd y Cyng. Pritchard i'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd a phwysleisiodd yr angen i roi cyllid gwaelodol ar waith ar gyfer y Setliad Terfynol. Nododd fod aelodau ac Arweinwyr CLILC o blaid cyllid gwaelodol, a gofynnodd am esboniad pam na ddarparwyd cyllid gwaelodol eleni.
10. Ychwanegodd y Cyng. Clement-Williams ei diolch a thynnodd sylw at ba mor ddiolchgar oedd bod gwaith staff yr awdurdodau lleol yn cael ei gydnabod, er gwaethaf y bwriad i rewi cyflogau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU.
11. Adleisiodd y Gweinidog bwyntiau'r Cyng. Hunt ar werth swyddogaethau cefn swyddfa ac am eglurder ynghylch sefyllfa Ardrethi Annomestig. O ran cyllido gwaelodol nododd fod pob awdurdod wedi cael setliad cadarnhaol. Gan fod yr holl gyllid a ddyrannwyd wedi'i ddefnyddio i ariannu lefel y setliad, byddai angen ariannu unrhyw gyllid gwaelodol o'r tu mewn i hyn drwy leihau cyllid oddi wrth awdurdodau eraill. Pe gellid dyrannu mwy o arian yng nghyllideb derfynol Llywodraeth Cymru, byddai'n ceisio naill ai cynyddu cyllid yn gyffredinol neu ddarparu cyllid gwaelodol.
12. Nododd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd fod swyddogion yn ystyried opsiynau y gallai Llywodraeth y DU eu cyhoeddi ar oblygiadau cymorth a modelu Ardrethi Annomestig i Gymru. Eglurodd swyddogion fod Llywodraeth y DU wedi cynghori awdurdodau lleol yn Lloegr, y diwrnod cynt, i ohirio cyhoeddi biliau NDR tan ar ôl Cyllideb y DU ar 3 Mawrth, a oedd yn awgrymu y byddai

Cyfarfod o'r Is-grŵp Cyllid – 4 Chwefror 2021 Cofnodion y cyfarfod

rhyddhad pellach yn cael ei gyhoeddi. Nodwyd y byddai'n ddoeth i awdurdodau Cymru fynd ati i filio mewn ffordd debyg lle y bo'n ymarferol.

13. Croesawodd y Cyng. Hunt ystyriaeth bellach ar gyllid gwaelodol ond dywedodd y byddai angen i unrhyw gyllid ar gyfer terfyn isaf gael ei ariannu'n llawn y tu allan i'r setliad presennol. Byddai CLILC yn falch o drafod y defnydd o unrhyw gyllid ychwanegol cyn y setliad terfynol.
14. Diolchodd y Gweinidog i'r cynghorwyr am eu sylwadau. Roedd amseriad cymharol Cyllideb y DU a Chyllideb Llywodraeth Cymru yn broblem a rennir. O ran codiadau cyflog, nododd fod cyllid ar gyfer cyflogau athrawon ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol wedi'i gynnwys yn y setliad.
15. Daeth y Gweinidog Cyllid a Threfnydd i'r gadair am weddill y cyfarfod. Fel eitem 4 ar yr agenda: *Roedd diweddariad CLILC ar faterion ariannu llywodraeth* leol wedi'i drafod, ac fe ganolbwyntiodd yr eitem nesaf ar lifogydd.

Eitem Lafar: Llifogydd

16. Roedd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yn ddiolchgar am ymdrechion cynghorau i ddarparu taliadau cymorth i ddeiliaid tai cyn gynted â phosibl. Nid oedd y cymorth hwn yn newid hirdymor i'r dull o ymdrin â'r Cynllun Cymorth Ariannol Brys, ond yn ymateb i'r pwysau penodol sy'n deillio o'r cyfuniad o lifogydd ac effaith pandemig Covid-19.
17. Mynegodd y Cyng. Morgan ei ddiolch am y gefnogaeth a gyhoeddwyd ar gyfer llifogydd yn ystod y pandemig. Nododd fod yr wybodaeth ddiweddaraf am gymorth ariannol ar gyfer llifogydd mis Chwefror 2020 eleni wedi dod i law, a gofynnodd pa gyllid fyddai ar gael o ran 2021-22 ynghylch gwaith atgyweirio yn sgil Storm Dennis. Eiliodd y Cynghorydd Clement-Williams hyn, gan bwysleisio bod croeso mawr i'r cymorth ar gyfer yr effaith ar Gastell-nedd Port Talbot.
18. Er y bu cais llwyddiannus i Lywodraeth y DU am gymorth llifogydd yn ystod y flwyddyn ariannol hon, dywedodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd nid oedd unrhyw gyllid pellach oddi wrth Lywodraeth y DU ar gyfer y blynyddoedd i ddod wedi'i gadarnhau. Roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt ar gyllid ar gyfer y llifogydd hyn yn ogystal ag ar lifogydd mewn tomenni glo a phyllau glo. Pwysleisiodd y Cynghorydd Pritchard anhawster Cyngor Wrecsam i ariannu'r 15% o gostau'r cynllun atal llifogydd yr oedd yn ofynnol i'r awdurdodau lleol eu hariannu a gofynnodd fod y ganran yn cael ei hailystyried.
19. Dywedodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd y byddai Llywodraeth Cymru yn parhau i godi'r angen am gymorth ariannol oddi wrth Lywodraeth y DU ar gyfer llifogydd eithafol ac am effeithiau treftadaeth hanesyddol y pyllau glo. Byddai'n ystyried fel rhan o drafodaethau parhaus ar y gyllideb a oedd lle i

Cyfarfod o'r Is-grŵp Cyllid – 4 Chwefror 2021

Cofnodion y cyfarfod

ailystyried y gyfradd ymyrraeth bresennol. Byddai cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru yn gliriach pan fyddai Cyllideb y DU yn cael ei chyhoeddi.

Eitem 5 ar yr Agenda: Rhaglen waith yr Is-grŵp Dosbarthu 2021

20. Cyflwynodd swyddogion Llywodraeth Cymru y papur i'r grŵp. Nododd Jon Rae fod angen cynnal a chadw fformiwla'r setliad yn barhaus ym mhob blwyddyn. Roedd o'r farn bod angen i CLILC ddatblygu safbwynt ar y strategaeth tymor hwy.
21. Nododd y Cyng. Clement-Williams fod lefelau'r dreth gyngor ar gyfer Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn uwch na llawer o gynghorau eraill ac roedd trigolion yn aml o'r farn bod hyn yn anghymesur. Credai fod y gwahaniaeth rhwng lefelau'r dreth gyngor rhwng awdurdodau yn rhy fawr. Cydnabu fod Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar waith ar gyfer y rhai â'r incymau isaf ond credai fod pobl yn yr haen ganol yn ysgwyddo effaith codiadau yn y dreth gyngor. Teimlai nad oedd awdurdodau lleol yn aml yn gallu rhewi codiadau, ond nododd y byddai'n anodd iawn newid y system.
22. Nododd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd fod nifer o bapurau ymchwil ar ddiwygio trethi lleol wedi'u comisiynu a'u cyhoeddi gan y Llywodraeth fel rhan o raglen waith helaeth ar opsiynau ar gyfer cyllid posibl gan lywodraeth leol a diwygio trethi lleol. Cynigiodd gyflwyniad os byddai'r grŵp yn ei chael yn ddefnyddiol. Cytunodd y cynghorwyr y byddai hyn yn fuddiol.

Cam gweithredu: Swyddogion Llywodraeth Cymru i drefnu briff technegol ar yr ymchwil i ddiwygio cyllid llywodraeth leol a threthi lleol

Eitem 6 ar yr Agenda: Diweddariad gan y Comisiynwyr Heddlu a Throseddau

23. Cyflwynodd Peter Curran ddiweddariad gan y Comisiynwyr Heddlu a Throseddau, gan nodi bod Paneli'r Heddlu a Throseddau ar y gweill ac y byddai'r Comisiynwyr yn ysgrifennu at arweinwyr a'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ar y codiadau i'r praesept. Dywedodd fod Llywodraeth y DU wedi darparu refeniw i ariannu bron i 300 o swyddogion ychwanegol ar draws heddluoedd drwy setliad yr heddlu 2021-22, ond bod cyllid sylfaenol yn wastad.

Eitem 7: Unrhyw Fater Arall

24. Nid oedd unrhyw sylwadau nac ymholiadau pellach.

Diwedd